

The Crannog - Ben Sands

Rydym yn sefyll nawr ar Ynys Crannog, sy'n rhan o ardal wlyptir y parc. Ynys artiffisial mewn llyn ydy Crannog, sydd fel arfer yn cael ei ddefnyddio fel preswylfa. Mae'r rhan fwyaf i'w canfod yn Iwerddon neu yn yr Alban. Maen nhw'n tueddu i ddyddio o'r Oes Haearn hyd at ddechrau'r Canol Oesoedd.

Cyn i'r pwll hwn gael ei greu byddai cae agored yma wrth droed yr hen dip glo. Crëwyd yr holl ardal wlyptir er mwyn i'r cyhoedd fedru bod yn agos at y math o gynefin sydd i'w gael yng Nghors Nelson gerllaw, ardal SoDdGA dynodedig, ond oherwydd natur yr ardal allwn ni ddim rhoi mynediad i'r cyhoedd iddi, felly, wrth greu pwll ag ynys artiffisial a gosod llwybr bordiau mae'n rhoi cyfle i ymwelwyr gael mynediad i gynefin fyddai ddim yn cael ei weld fel arall.

Dyluniwyd y llwybr bordiau ei hun gan Artist Tirwedd enwog o'r enw Mick Petts. Mae wedi cynnwys nifer o ategion pwll glo sy'n adlewyrchu'r dreftadaeth lofaol. Yr adeg orau i archwilio'r rhan yma o'r parc ydy ar ddechrau'r haf, pan fydd y blodau gwyllt yn dechrau blodeuo, rhaid i chi ddal y Gwenoliaid yn dychwelyd, maen nhw'n sgubo'n isel dros y pwll i fachu diod o ddŵr. Weithiau, ddechrau'r haf, pan fydd coesau'r penbyliaid wedi tyfu ac maen nhw'n barod i adael y pwll, byddwch yn gweld carped o frogaod bychain yn gorchuddio'r llwybrau o amgylch y llyn, gan y byddan nhw'n gadael y pwll i ddod o hyd i le arall i fyw. Mae'r gwelyau cyrs hefyd yn dod yn fyw gyda gwas y neidr a mursennod, bron a dod allan, ac mae adar mudol eraill fel Telor y gors yn dod yma i chwilio am lefydd i nythu yn y gwelyau cyrs.

Yr hyn welwch chi gydag amgylchedd gwlyptir fel hwn yw bod rhywogaethau o blanhigion yn ei goloneiddio'n gyflym iawn ac yn ymledu allan, gan leihau arwynebedd y dŵr agored, ac mae hynny'n cyflymu'r broses o sychu'r ddaear nes bydd rhywogaethau o goed yn cael y cyfle i'w feddiannu, a bydd y pwll yn y pen draw yn cael ei golli. Felly bob blwyddyn, bydda i'n gwisgo fy esgidiau pysgota ac yn padlo allan i'r pwll i dorri peth o'r gwyrddni yn ôl er mwyn cadw'r cydbwysedd rhwng dŵr agored a gwelyau cyrs yn dderbyniol. Mae hyn hefyd yn rhoi cyfle i ni gael amrywiaeth o ran planhigion, felly mae gwelyau cyrs o wahanol oed yn sefyll, a chyfuniad o rywogaethau hefyd, mae hyn i gyd o fantais i'r bywyd gwyllt sy'n dod i mewn.